**Sesiwn 2000-2001 Rhif 26**

**PAPURAU BUSNES**

**DYDD IAU, 26 HYDREF 2000**

**RHAN 1 – ADRAN A**

**AGENDA**

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Bydd Cloch y Bleidlais yn cael ei chanu am 9.00am**

**Cwestiynau i Michael German, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog Datblygu Economaidd** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000**

Cynnig fod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ac yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft canlynol o dan Reol Sefydlog 22.23A:

- Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000 ac adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Gorchymyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000

**Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi Adroddiad Blynyddol 1999-2000 Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2000

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd camau i edrych ar ffyrdd o gryfhau annibyniaeth Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru.

**Dadl ynglyn â'r Gyllideb Ddrafft**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer blynyddoedd ariannol 2001-2002, 2002-2003 a 2003-2004, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Iau 19 Hydref gan y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau, Edwina Hart

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

**Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:**

- Mae'r Cynulliad yn galw ar y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau i gydnabod y ffaith bod mwy na hanner y cynnydd yn y gyllideb yn adlewyrchu newid cyfrifo syml yn deillio o'r ffordd newydd o gyfrifo adnoddau ac nad yw'n arian ychwanegol.

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

**Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:**

- Mae'r Cynulliad yn nodi mai dim ond 7% yw'r Terfyn Gwariant Adrannol ar gyfer Cymru mewn gwirionedd o'i gymharu â'r cynnydd o 8.7% ar gyfer holl Adrannau Llywodraeth y DU.

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

**Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:**

- Mae'r Cynulliad yn cyfarwyddo'r Gweinidog i wneud dyraniadau yn y gyllideb derfynol yn unol â'r ddyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy; gan roi sylw arbennig i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal.

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

**Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:**

- Mae'r Cynulliad yn galw ar glymblaid Llywodraeth Cymru i gydnabod na fyddwn yn derbyn ychwanegedd llawn mewn perthynas a'r Cronfeydd Ewropeaidd y mae hawl gennym i'w derbyn yn ystod y cyfnod hwn;

- Mae'r Cynulliad yn galw ar glymblaid Llywodraeth Cymru i gydnabod y ffaith bod yn rhaid dod o hyd i gyllid cyfatebol o'r cyllidebau presennol, yn arbennig addysg, gan na ddarparodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant unrhyw gyllid cyfatebol sector cyhoeddus yn ychwanegol at y grant bloc;

- Mae'r Cynulliad yn gofyn am i bod cyllideb ddrafft yn y dyfodol gyflwyno tair elfen yr eitemau o wariant arferol, y cyfraniad Ewropeaidd a chyllid cyfatebol sector cyhoeddus projectau Ewropeaidd ar wahân, gan nodi'n glir gyfanswm gwerth yr holl gyfraniadau cyllid cyfatebol sector cyhoeddus nad ydynt wedi'u cynnwys yn y codiadau i ddyraniad Barnett;

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

**Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:**

Mae'r Cynulliad yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau i flaenoriaethau'r amcanion a ganlyn wrth ddyrannu'r cyllid yn derfynol:

- Datblygu Strategaeth Swyddi a Gwaith effeithiol i Gymru;

- Yr angen i hybu gallu'r NHS, yn arbennig o safbwynt cynyddu nifer y nyrsys a'r doctoriaid sy'n mynd i mewn i'r proffesiwn yng Nghymru a nifer y gwelyau sydd ar gael i drin cleifion;

- Yr angen i ddyrannu cyllid i hybu recriwtio i'r proffesiwn gofal cymdeithasol a chydnabod pwysigrwydd cyhoeddus y proffesiynau hynny;

- Datblygu cymdeithas ddwyieithog;

- Yr angen am gyllid digonol ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig;

- Darparu cyllid ar gyfer Cynllun Newydd-ddyfodiaid i ffermwyr ifanc;

- Gwaith atgyweirio angenrheidiol i'r stoc dai drwy gynyddu'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol/ SCA yn sylweddol;

- Yr angen am gyllid digonol i wireddu dyheadau'r adolygiad o ddiwylliant gan y Pwyllgor Addysg ar ôl 16 oed.

**Dadl Fer:** (i bara am 30 munud)
**Peter Rogers (Gogledd Cymru); Y pwysigrwydd o gydnabod bod diwydiant amaethyddol llwyddiannus yn hanfodol i ffyniant cefn gwlad Cymru.**

**************

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm. Yna, cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 31 Hydref 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**